**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-973
Ein cyf/Our ref KS/02969/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

17 Mehefin 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Mehefin ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch effaith pandemig y coronafeirws ar siopau barbwr a thrin gwallt.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr amgylchiadau aruthrol o anodd ac ansicr y mae busnesau ac unigolion yn eu profi ar hyn o bryd. Rydym wedi ymroi'n llwyr i roi'r gefnogaeth a'r tawelwch meddwl sydd eu hangen ar y gymuned fusnes.

Rydym yng Nghymru wedi creu'r pecyn cymorth mwyaf hael i fusnesau yn y DU – gwerth cyfanswm o £1.7 biliwn – ac rydym wedi lansio gwiriwr cymhwysedd newydd ar gyfer y cam nesa' o gymorth gan y Gronfa Cadernid Economaidd.
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

Caiff penderfyniad ei wneud ynghylch adolygu rheolau'r cyfnod clo yn yr arolwg nesaf ar 18 Mehefin a bydd yn dibynnu ar y dystiolaeth wyddonol a meddygol ddiweddaraf a chyfradd atgenhedlu'r feirws (y gyfradd R) yng Nghymru.

Byddwn am weld pethau'n ailddechrau os bydd yr amodau'n caniatáu. Byddwn yn dal i gydweithio'n glos â'r sector cyhoeddus, yr undebau llafur, busnesau, y trydydd sector ac eraill yn hyn o beth.

Yn y cyfamser, rydym wedi cyhoeddi cyngor ac adnoddau eraill ar gyfer busnesau a chyflogwyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fe welwch hefyd inni gyhoeddi canllawiau manwl i helpu’r sector gweithgynhyrchu i ailddechrau’n ddiogel a chaiff canllawiau ar gyfer sectorau allweddol eraill eu cyhoeddi dros yr wythnosau i ddod.

Mae’r cyfyngiadau’n hanfodol i arafu lledaeniad y coronafeirws, diogelu’r GIG ac achub bywydau.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales